

Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Iau, 16 Hydref 2014

Amser:

13.00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Siân Phipps

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8582

Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk

Agenda

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015–16: yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (13.00–15.00) (Tudalennau 1 – 96)

Edwina Hart AM, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Ken Skates AM, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.

James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Rob Hunter, Cyfarwyddwr, Cyllid a Pherfformiad

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil – yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (Cwestiynau yn Gymraeg)

EBC(4)–25–14 (p. 4) – Cylliedeb Ddrafft – yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Ôl-drafodaeth (15.00–15.15)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Memorandwm ar Gynigion Cyllideb Ddrafft yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (EGT) ar gyfer 2015/16

Y Pwyllgor Menter a Busnes – 16 Hydref 2014

1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am gynigion y gyllideb EGT fel y'u hamlinellir yng nghyllideb ddrafft 2015/16 a gyhoeddwyd ar 30 Medi. Nid yw'r papur hwn yn ymwneud â'r manylion cyllideb ynglŷn â diwylliant a chwaraeon. Bydd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn rhoi sylw i'r meysydd hynny yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 9 Hydref.

2.0 Crynodeb o'r Newidiadau Cyllidebol

Yn gyffredinol, mae dyraniadau cyllideb 2015/16 i gynorthwyo'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)) wedi cynyddu o £12.333m o'u cymharu â Chyllideb Atodol Mehefin 2014. Cyfansoddir y symudiad hwn o ostyngiad refeniw o £28.967m a chynnydd cyfalaf o £41.3m, fel y dangosir yn y tabl isod.

	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000	Newidiadau 2015/16 £'000
Refeniw			
Economi a Gwyddoniaeth	113,696	86,258	(27,438)
Trafnidiaeth	306,970	305,441	(1,529)
Cyfanswm	420,666	391,699	(28,967)
Cyfalaf			
Economi a	123,647	123,147	(500)

Gwyddoniaeth			
Trafnidiaeth	296,349	338,149	41,800
Cyfanswm	419,996	461,296	41,300
Nad yw'n Arian	110,000	110,000	-
Cyfanswm	950,662	962,995	12,333
GRF	50,096	66,272	16,176
Cyfanswm TGA	1,000,758	1,029,267	28,509

Esbonnir y gostyngiad refeniw o £28.967m rhwng y ddwy flwyddyn fel a ganlyn:

- Dyraniad ychwanegol o £5m yn 2015/16 a £9.75m yn 2016/17 ar gyfer tocynnau teithio consesiynol i bob ifanc
- Ar gyfer r 2014/15 yn unig, cynyddwyd y gyllideb refeniw gan swm canlyniadol cyllideb y DU o £17.423m i gynorthwyo cynlluniau ardrethi busnes;
- gostyngiad llinell sylfaen o £8.144m a bennwyd yng nghynlluniau dangosol 2015/16 pan osodwyd cyllideb derfynol 2014/15;
- gostyngiad llinell sylfaen pellach o £8.4m yn 2015/16 o ganlyniad i flaenoriaethu cyllidebau portffolio ar draws Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn y gostyngiadau llinell sylfaen refeniw, gwaned adolygiadau manwl ledled y portffolio i geisio canfod arbedion tra'n lleihau'r effaith i'r eithaf ar wasanaethau ac ar gyflenwi rhaglenni. Er mwi Trafnidiaeth sy'n cyfrif am y rhan helaethaf o gyllideb yr Adran, canfuwyd y mwyafrif o'r arbedion o fewn yr Economi a Gwyddoniaeth. Digwyddodd hyn oherwydd bod y cyfleoedd i wneud arbedion refeniw mewn rhaglenni Trafnidiaeth yn gyfyngedig, gan fod y cyllidebau'n cynorthwyo'r gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus a'n dyletswyddau statudol i gynnal diogelwch a defnyddioldeb ein rhwydwaith ffyrdd. Yn ogystal, mae gan Dtrafnidiaeth nifer o gontractau hirdymor sy'n gysylltiedig â chwyddiant, sy'n peri bod costau cynnal rhai gwasanaethau (megis rheilffyrdd) yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Rydym yn parhau i

gydweithio â darparwyr y gwasanaethau, Llywodraeth y DU a'r rhanddeiliaid allweddol i sicrhau fforddiadwyedd hirdymor yr atebion Trafnidiaeth.

Mae adolygiad yr Adran wedi ceisio canfod rhagor o arbedion effeithlondeb, ail-flaenoriaethau ac ail-broffilio ymrwymïadau pan fo modd, gwella'r incwm o'r UE a ffynonellau eraill a gwneud y defnydd gorau o'r cronfeydd a reolir gan Gyllid Cymru. Er enghraifft, mae Cronfa Fuddsoddi BBaChau Cymru, Cronfa JEREMIE Cymru, y Gronfa Datblygu Eiddo a'r cronfeydd Twf Cyfalaf Cymru a Sbarduno Technoleg Cymru a grëwyd yn ddiweddar, wedi darparu mynediad at gyllid sylweddol ar gyfer BBaChau, ochr yn ochr ag ymyriadau uniongyrchol gan yr Adran. Trwy gynorthwyo busnesau, a gwasanethau a seilwaith allweddol i gyflenwi swyddi a thwf, mae'r Adran hefyd yn trosoli buddsoddiadau ychwanegol sylweddol o ffynonellau eraill megis y Comisiwn Ewropeaidd, Llywodraeth y DU a'r sector preifat.

Mae'r cynnydd o £41.3m yn ein cyllideb gyfalaf yn cynrychioli symudiad net rhwng y ddwy flwyddyn, yn y symiau o gyfalaf a'r dyraniadau o gronfeydd trafodion ariannol.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn cynnwys cyllid cyfalaf ychwanegol o £40m a chyllid trafodion ariannol o £3m fel y nodir isod. Caiff hyn ei wrthbwysu gan ostyngiad net o £1.7m ar gyfer symudiadau a dyraniadau untro blaenorol yng nghyllideb 2014-15.

GWEITHREDU	CYFALAF 2015/16 £'000	BLAENORIAETH STRATEGOL	FFYNHONNELL
DARPARU SEILWAITH TGCh	10,000	Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru	Cronfeydd Canolog
Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd	30,000	Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae	Cronfeydd Canolog

Sectorau	3,000	Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd	Cyllid Trafodion Ariannol
Cyfanswm	43,000		

Rhoddir dadansoddiad llawn o gyllidebau refeniw a chyfalaf yr Adran yn y tablau o Linell Wariant y Gyllideb yn Atodiad A isod.

Mae'r PGG EGT yn cynnwys dyraniad hefyd ar gyfer GRF, sy'n darparu sicrwydd rhag costau sydd y tu allan i reolaeth yr Adran, megis gostyngiadau yng ngwerth y portffolio eiddo, cyd-fentrau, buddsoddiadau a'r rhwydwaith ffyrdd. Mae'r gyllideb hon wedi cynyddu £16.176m, o £50.096m yn 2014/15 i £66.272m yn 2015/16 yn unol ag arwyddion o gyflwr y farchnad.

Yn y naratif o Gyllideb Ddrafft 2015/16 a'r asesiad effaith integredig fel y'u cyhoeddwyd, amlinellir ein blaenoriaethau cyllidebol ar gyfer cefnogi twf a swyddi, cyrhaeddiad addysgol, cynorthwyo plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig ac iechyd a llesiant.

Datblygu cynaliadwy yw'r egwyddor drefniadol ganolog, sef gwneud penderfyniadau sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r amcanion ac effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol. Trwy wneud hynny, rydym yn mabwysiadu agwedd a fydd yn gwneud cydweithio, integreiddio, gwarchod ac ymgysylltu hirdymor yn rhan annatod o'n polisiau a'n ffordd o gyflawni, wrth ddilyn hynt Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Rydym yn cydweithio gyda Chyngor Adnewyddu'r Economi a Chomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, i edrych ar rôl twf gwyrdd yng Nghymru fel dull o ddarparu twf a ffyniant economaidd hirdymor. Nid yw'r ffordd hon o weithredu yn cymryd lle datblygu cynaliadwy; yn hytrach mae'n rhoi'r amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol ar waith ac yn gymorth i'w gwreiddio'n ddyfnach yn ein dull o weithio.

Ein bwriad yw canfod gweithredoedd ac arferion twf da y gellir eu hymgorffori ledled yr economi, a defnyddio hynny i ddylanwadu ar y modd y dyrennir

Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd newydd. Rydym yn buddsoddi'n sylweddol ar draws ystod eang o ymyriadau polisi integredig.

Mae'n cynlluniau gwario yn cynorthwyo a hyrwyddo cadw a chreu cyflogaeth ym hob rhan o Gymru. Rydym yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi drwy ddiogelu swyddi a gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus, creu cyfleoedd cyflogi a gwella'r amodau yn gyffredinol ar gyfer busnesau, gan gydnabod bod cyflogaeth yn darparu lefel uchel o ddiogelwch rhag tlodi. Mae'r cyllidebau'n cefnogi gwelliannau yn yr amgylchedd busnes cyffredinol, er mwyn creu'r amodau i'r sector preifat greu a chynnal swyddi, a fydd yn caniatáu i'r bob sydd mewn tlodi, neu dan fygythiad o dlodi, ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn ffordd bositif. Maent hefyd yn cynnwys gweithredu uniongyrchol i liniaru'r pwysau ar fusnesau o ganlyniad i'r heriau byrdymor a wynebant, er mwyn ysgogi buddsoddi a hybu twf.

Mae'r Adran yn gweithio hefyd i hyrwyddo system drafnidiaeth fforddiadwy, hygyrch ac effeithiol a fydd â'r gallu i wneud gwahaniaeth ymarferol ym mywydau pobl, gan gydnabod bod cysylltedd trafndiaeth da yn hanfodol ar gyfer mynediad i swyddi, hyfforddiant a gwasanaethau allweddol. Bydd gwell trafndiaeth gyhoeddus yn annog busnesau i fuddsoddi, er mwyn manteisio ar yr hygyrchedd ehangach ar gyfer gweithlu medrus. Bydd defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn hytrach na chludiant preifat helpu'r ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, ac yn gymorth hefyd i fynd i'r afael â thlodi trwy gynyddu'r buddsoddiad mewn datblygu'r economi a gwella hygyrchedd cyfleoedd cyflogaeth.

Mae'r cynigion cyllideb yn parhau'n hymrwymiad i gynorthwyo twf hirdymor er mwyn rhoi sylw i faterion strwythurol yn economi Cymru. Buom yn canolbwyntio ar weithredu i greu economi fwy cytbwys, cefnogi twf hirdymor a swyddi yn lleol, datblygu system drafnidiaeth fodern, rhoi band eang ar gael fesul cam, gwella ein sylfaen o wyddoniaeth ac arloesi, a datblygu seilwaith. Bydd ein buddsoddiad ar gyfer y tymor hir yn ataliol yn ogystal, er yn rhwystro'r un cylch o broblemau rhag dychwelyd eto mewn cenedlaethau i ddod.

3.0 YR ECONOMI A GWYDDONIAETH

3.1 Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu

Mae'n cynlluniau gwario 2015/16 wedi eu halinio i gydweddu â'n hamcanion strategol, sy'n cynnwys yr ymrwymadau a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae Atodiad B yn mapio'r gwariant, o'r Gweithredoedd hyd at gyflawni Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu.

Cyhoeddwyd y diweddariad blynyddol o gyflawniadau a chanlyniadau'r Rhaglen Lywodraethu ym Mehefin 2014, a gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru yn

<http://cymru.gov.uk/about/programmeforgov/?lang=cy>

Gellir gweld y Datganiad Blynyddol ar Gymorth i Fusnesau a'r Economi yn:

<http://cymru.gov.uk/topics/businessandconomy/help/120607supportstatement/?lang=cy>

Darperir diweddariad chwe-misol 30 Medi 2014 ar yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn Atodiad C.

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae fforddiadwyedd yn parhau'n ystyriaeth bwysig iawn, ac mae'r prosiectau'n cael eu monitro'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu canlyniadau a'u targedau. Pan ganfyddir nad ydynt yn cyflawni fel y disgwyliid, mae'r adnoddau'n cael eu hailddyrannu i ymyriadau eraill, a fydd yn cyflenwi swyddi a thwf. Bydd y Paneli Sector a byrddau allanol eraill, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r grwpiau rhanddeiliaid allweddol, yn chwarae rhan bwysig wrth wneud gwelliannau a chefnogi tryloywder.

Mae gwerth am arian yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel gwariant. Cyflawnir y diwydrwydd dyladwy ar bob cais, a gwerthusir y canlyniadau o safbwynt datblygiad economaidd hirdymor. Amlinellir y prif flaenoriaethau buddsoddi yng Nghynllun Seilwaith Cymru. Mae pob dyraniad

cyfalaf ar gyfer prosiectau seilwaith strategol, wedi ei ategu gan achos busnes a baratowyd yn unol â Model Busnes Pum Achos y Trysorlys. Mae hyn yn hanfodol er mwyn gwerthuso effeithiau hirdymor a sicrhau canlyniadau. Felly, mae prosesau cadarn wedi eu sefydlu i sicrhau y dyrennir yr adnoddau ariannol yn effeithlon

3.2 Polisiau Allweddol

Yn ein hymdrechion i sicrhau twf, rydym yn parhau i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, er mwyn manteisio i'r eithaf ar adnoddau a gwybodaeth wrth gyflawni ein hamcanion polisi. Mae nifer o'r polisiau yn drawsffiniol a chydweithredol, a'u hegwyddorion yn rhan annatod o'r blaenoriaethau strategol yn y meysydd busnes perthnasol, a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb. Amlygwyd y datblygiadau polisi hyn hefyd yn yr ymarferiad cwmpasu ar gyfer rhaglen cronfeydd strwythuro yr UE ar gyfer 2014–2020.

Darperir gwybodaeth ychwanegol fel ymateb i'r meysydd penodol y tynnwyd sylw atynt gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

a) Cynllun Allwedd Band Eang Cymru

Mae Allwedd Band Eang Cymru yn darparu cymorth i fangreoedd preswyl a busnes, pan fo'n angen darparu cysylltedd band eang ynddynt ar unwaith. y cynllun hwn yw un o'r ymyriadau cyfnod cynnar i gynorthwyo'r 4% o fangreoedd yr amcangyfrifir na fyddant yn cael mynediad i'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau band eang drwy'r prosiect Cyflymu Cymru.

Nid yw'r ardaloedd sy'n debygol o gael budd o'r cynllun Allwedd Band Eang Cymru yn hawdd i'w diffinio, ac nid ydynt o anghenraid yn nyfnderoedd cefn gwlad fel y byddid yn disgwyl, ac felly ni fydd y gweithgarwch cyfathrebu'n canolbwyntio ar unrhyw ardal ddaearyddol benodol.

Bydd y rheolau newydd a gyflwynwyd ar 4 Awst 2014 yn golygu y bydd modd i ragor o bobl ar draws Cymru gael budd o'r cynllun. Cyn y newidiadau, yr unig

bobl a oedd yn gymwys oedd y bobl y tu allan i'r ardaloedd a gyhoeddwyd fel rhai y rhoddir Cyflymu Cymru ar waith ynddynt. Bellach, caiff y bobl sy'n byw mewn ardaloedd Cyflymu Cymru dynodedig wneud cais hefyd, os dymunant.

Bydd darpar dderbynwyr yn cael gwybodaeth am sut a pha bryd y rhoddir Cyflymu Cymru ar waith, fel y gallant benderfynu naill ai i wneud cais am grant neu aros nes daw'r gwasanaeth ffibr cyflym ar gael yn eu hardal.

Bydd y rheolau newydd yn gymorth i sicrhau bod y cwsmeriaid yn cael cysylltiad band eang cyflym, gan fod rhaid i'r dechnoleg a ddefnyddir allu darparu cyflymderau uchel iawn sy'n cyfateb i'r hyn a ddarperir gan Gyflymu Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu uchafswm o £900 y fangre, gyda chwsmeriaid yn gwneud cyfraniad ariannol o ddeg y cant, sydd yn unol â chost y ffioedd cysylltu yn y diwydiant yn gyffredinol.

Ceir defnyddio'r cyllid i dalu costau gosod pa bynnag dechnoleg yw'r fwyaf addas, er enghraifft lloeren a di-wifr, er mwyn sicrhau bod cysylltiad band eang sylfaenol ar gael. Diffinnir band eang sylfaenol fel cyflymder lawrlwytho o 2 Megabeit yr eiliad. Mae'r cynllun yn cyfrannu i'n hamcan o sicrhau bod "band eang sylfaenol ar gael i bawb" fel y pennir yn ein strategaeth gyffredinol.

Mae'n cynlluniau gwariant ar gyfer y cynllun Allwedd Band Eang Cymru yn rhagdybio y bydd y galw am fand eang sylfaenol yn lleihau wrth i ôl-troed ffibr Cyflymu Cymru gynyddu; ac y bydd y galw am y cynllun hefyd yn lleihau o ganlyniad.

b) Cyflymu Cymru

Cyflymu Cymru yw'r bartneriaeth fwyaf o'i bath syn y DU; ac ar y cyd â mentrau masnachol a roddir ar waith, bydd wedi darparu band eang ffibr cyflym i 96% o'r mangreoedd yng Nghymru erbyn 2016.

Bydd Cyflymu Cymru'n darparu mynediad i wasanaethau band eang y genhedlaeth nesaf yn yr ardaloedd hynny yng Nghymru lle nad yw'r sector preifat yn bwriadu buddsoddi yn ystod y tair blynedd nesaf. Bydd y prosiect yn cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiad allweddol yn y *Rhaglen Lywodraethu*, sef bod pob mangre breswyl a busnes yn cael mynediad i wasanaethau band eang cenhedlaeth nesaf.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd cyfanswm y buddsoddiad mewn band eang cenhedlaeth nesaf yng Nghymru, gan gynnwys ein buddsoddiad ni yng Nghyflymu Cymru a chyfraniad y sector preifat, oddeutu £425 miliwn. Buddsoddiad y sector cyhoeddus yw £205m, sy'n cynnwys : £89.5m o'r Cronfeydd Strwythurol (ERDF); £56.9m o gyllid gan Lywodraeth y DU; £28.6m o'r gyllideb gyfalaf EGT a £30m o gyllid o'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog

Ein partneriaeth ni gyda BT i gyflawni Cyflymu Cymru yw'r prosiect mwyaf o'i fath yn y DU. Bydd ei raglen waith uchelgeisiol, erbyn diwedd 2016, wedi darparu i fwyafrif o'r busnesau a mangreoedd preswyl yng Nghymru, fynediad i wasanaeth band eang gyda chyflymderau lawrlwytho o 30 Megabeit yr eiliad o leiaf– mae hyn uwchlaw targed yr UE, (sef band eang cyflym ar gael yn eang erbyn 2020) ac yn peri mai Cymru fydd un o'r wledydd mwyaf blaenllaw y byd o ran galluedd band eang.

Ar gyfer hyn rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid sylweddol iawn o Ewrop a chan Lywodraeth y DU. Mae'n cynlluniau gwariant ar gyfer y gyllideb hon yn adlewyrchu'r angen i lawrdynnu'r cyllid hwnnw erbyn canol 2015/16.

c) Dinas-ranbarthau

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu dau Ddinas-ranbarth yng Nghymru – Dinas-ranbarth Bae Abertawe a Phrifddinas-ranbarth Caerdydd. Yn y ddwy ardal, mae Byrddau edi eu sefydlu i ddarparu cyfeiriad strategol a hwyluso gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo'r dyheadau cyffredin am swyddi a thwf. Mae'r Byrddau'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar weithio gydag awdurdodau lleol, y gymuned fusnes leol ac eraill i ganfod a blaenoriaethu prosiectau trawsnewidiol. Eu hamcan yw manteisio i'r eithaf ar rôl y dinasoedd a'r trefi fel

ysgogwyr economaidd, gan sicrhau bod pob Dinas-ranbarth yn meddu cysylltiadau da, yn arloesol a medrus, gyda'r gallu i gynnal cymunedau cynhwysol a chynaliadwy. Mae perthynas agos rhwng y Dinas-ranbarthau a'n dulliau eraill, a dargedir yn ddaearyddol, o ymdrin â datblygu economaidd yn yr Ardaloedd Menter a'r Ardaloedd Twf Lleol, lle y ceisiwn alinio'r cyllidebau a'r gweithgareddau, a'u ffocysu ar y blaenoriaethau strategol.

d) Ardaloedd Menter, Ardaloedd Twf Lleol ac Ardaloedd Gwella Busnes

Ardaloedd Menter

Mae'r gweithgarwch busnes a buddsoddi o fewn y saith Ardal Fenter yn arwydd marchnad grymus ar gyfer denu buddsoddiadau pellach. Bydd y cyfraniad o gyllideb benodedig y rhaglen Ardaloedd Menter yn cynorthwyo datblygiad pellach y seilwaith sydd ei angen ar gyfer creu a chadw swyddi yn yr Ardaloedd Menter

Ategir y cynigion cyfalaf gan astudiaethau dichonoldeb/ achosion busnes, a gwneir y cyfleoedd i drosoli cyllid ychwanegol bob amser yn rhan o'r gwerthuso. Mae Byrddau'r Ardaloedd Menter yn cynnwys cynrychiolaeth gref o'r sector preifat, a manteisir ar brofiad y cynrychiolwyr hynny wrth flaenoriaethu'r prosiectau cyfalaf sy'n cystadlu. Cyhoeddir adroddiad a fydd yn rhoi manylion am y perfformiad a'r deiliannau sy'n gysylltiedig â'r Ardaloedd Menter ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Ardaloedd Twf Lleol

Mae datblygiad yr ardaloedd twf lleol yn ffactor pwysig yng nghynaliadwyedd economaidd y trefi a chymunedau gwledig, lle mae'r model yn fwy addas na model yr Ardaloedd Menter. Mae'r model yn rhoi cyfle i archwilio gwahanol opsiynau polisi ar gyfer annog a chynorthwyo swyddi a thwf economaidd, ynghyd â chyfle i brofi gwahanol fathau o ymyriadau. Gan adeiladu ar waith Ardal Dwf Lleol Powys, mae'r cysyniad wedi ei estyn yn ddiweddarach i Ddyffryn Teifi, lle'r oedd ystyriaeth o lefel y defnydd o'r Gymraeg hefyd yn nodwedd.

Mae adroddiadau'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ym Mhowys ac yn Nyffryn Teifi wedi darparu argymhellion pell-gyrhaeddol sy'n torri ar draws nifer o'r portffolios Gweinidogol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r ddau adroddiad, ac o ganlyniad bydd yn symud ymlaen i weithredu ar nifer o'r pwyntiau. Yn ogystal, mae nifer o'r materion yn rhai i'r awdurdodau lleol eu hystyried a gweithredu arnynt.

Ym Mhowys, rydym yn cynorthwyo nifer o fentrau penodol, gan gynnwys:

- cyllido prosiect EFFECT Dyffryn Hafren, sy'n seiliedig ar fodel Sirolli o hwyluso menter. Mae'r model hwn yn argymhell defnyddio hwylusydd menter a leolir yn y gymuned, i ymgysylltu ag unigolion er mwyn hwyluso diwylliant o fentro, ac annog hunangyflogaeth fel llwybr gyrfaal.
- Yn Llandrindod, mae grŵp a arweinir gan wŷr busnes wedi cael cymorth i ddatblygu cynllun gweithredu i roi sylw i gynaliadwyedd economaidd y dref yn y dyfodol a hyrwyddo swyddi a thwf economaidd. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i adroddiad y grŵp, a bydd yn rhoi cyllid ar gael i benodi hyrwyddwr tref, i yrru ymlaen â'r cynllun gweithredu. Yn ychwanegol, rydym yn cefnogi nifer o bwyntiau gweithredu eraill, gan gynnwys darparu cymorth busnes mwy rhagweithiol gan Fusnes Cymru, a gwaith ar y seilwaith TGCh.

Yn ychwanegol at y mentrau penodol uchod, symudir ymlaen â nifer o gamau gweithredu eraill yn yr Ardal Dwf Lleol, gan gynnwys blaenoriaethu'r modd y rhoddir y band eang cenhedlaeth nesaf ar waith, a phrosiectau trafnidiaeth allweddol megis ffordd osgoi'r Drenewydd.

Ynglŷn â Dyffryn Teifi, mae Llywodraeth Cymru eto wedi ymrwmo i yrru ymlaen nifer o'r pwyntiau gweithredu sy'n ymwneud ag argymhellion yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen mewn cysylltiad â thair thema eang – datblygu busnes, datblygu pobl a datblygu ardal. Mae gwaith ar droed eisoes i gwmpasu nifer o'r gweithredoedd hyn.

Mewn perthynas â nifer o'r argymhellion cymorth busnes, roedd y Grŵp yn cydnabod bod llawer o'r cymorth yn cael ei ddarparu eisoes, ond yn awgrymu bod angen mwy o bwyslais ar godi ymwybyddiaeth yn lleol, ac ar fabwysiadu dull mwy rhagweithiol. Ystyrir trefnu arbrawf yn yr ardal, i beilot dull mwy rhagweithiol o ddarparu gwasanaethau busnes, ochr yn ochr â sefydlu rhwydwaith busnesau lleol. Bydd yr arbrawf peilot hefyd yn archwilio ac asesu'r ddarpariaeth gyfredol, a'r rhwystrau a ganfyddir, sy'n atal pobl rhag galw am wasanaethau Cymraeg a'u defnyddio. Bydd yn profi'r cysyniad o ddarparu gwasanaethau cymorth busnes yn Gymraeg, a Chronfa Gymorth ar gyfer BBaChau Cymraeg .Mae'r gwaith o gwmpasu hyn ar droed.

Ardaloedd Gwella Busnes

Mae adfywio canol trefi yn faes allweddol y canolbwyntir arno yn fframwaith adfywio Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid o £203,000 yn Ionawr 2014 i gynorthwyo datblygu naw o gynigion AGB yng Nghymru. Gwnaed y cyhoeddiad yn dilyn dau adroddiad a oedd yn ffafrio'r AGBau; sef Adolygiad Ardrethi Busnes Cymru a'r ymchwiliad i adfywio canol trefi gan Bwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gall AGB ddarparu model ariannol cynaliadwy o fewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, pan fo busnesau wedi pleidleisio i fuddsoddi ar y cyd mewn gwelliannau lleol. Datblygir, rheolir a thelir am yr AMGau trwy godi ardoll AMG. Yn aml, mae'r AMG yn drefniant partneriaeth, sy'n caniatáu i'r gymuned fusnes leol a'r awdurdodau statudol yrru ymlaen â phrosiectau a gweithgareddau a fydd o fudd i'r economi leol.

Y naw ardal AMG yw Pen-y-bont ar Ogwr, Caernarfon a Bangor, Llanelli, Pontypridd, Castell-nedd, Aberystwyth, y Fenni, Ystadau Diwydiannol Pant a Merthyr a Bae Colwyn, a bydd pob un yn cael rhwng £17,000 a £25,000.

Cyd-fenter yw hon, a rhennir y cyfraniad cyllid yn gyfartal rhwng yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, a Chartrefi a Lleoedd.

e) Cronfa Twf Economaidd Cymru

Ni wneir dyraniad i Gronfa Twf Economaidd Cymru yn 2015-16.

f) Ardrethi Busnes

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydnabod ardrethi busnes fel trosol ar gyfer twf economaidd, ac i gymryd camau i gynorthwyo busnesau, twf a swyddi. Rydym wedi dod i gytundeb ar ddatganoli'r dreth bwysig hon i Gymru o 2015 ymlaen.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, rydym wedi lansio'r cynlluniau Ar Agor am Fusnes a Datblygiadau Newydd. Nod y cynlluniau hyn oedd symbylu busnesau ac adeiladu. Gweithredir i wella'r ymwybyddiaeth o'r cynlluniau. Byddwn yn monitro effaith y gwaith hwnnw yn ofalus.

Rydym hefyd wedi llwyddo i ddarbwyllio Llywodraeth y DU i estyn y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach ac wedi ei weithredu yng Nghymru yn ystod 2014/15. Mae'r rhyddhad hwn o fudd i lawer o fusnesau ledled y wlad. Gosodwyd cap o 2% ar y codiadau mewn ardrethi busnes yn 2014-15 ac yr oedd hynny yn chwistrelliad o arian i economi Cymru ar gyfer cefnogi swyddi.

Lansiwyd dau gynllun ychwanegol yn 2014/15. Mae Cynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru y cynnig disgownt i fusnesau cymwys o hyd at £1,000 ar filiau ardrethi busnes mangreoedd cymwys sy'n gwerth u bwyd a diodydd. Gan gydnabod bod angen cymorth gyda'u biliau ar sectorau eraill hefyd, yn enwedig gan fod ailbrizio ardrethi busnes wedi ei ohirio, mae'r Cynllun Anghenion Lleol yn darparu £3.5m ledled Cymru i awdurdodau lleol, ar gyfer datblygu cynlluniau rhyddhad ardrethi busnes a fydd yn cefnogi'r blaenoriaethau lleol o ran datblygu economaidd.

Bydd penderfyniadau ynglŷn â pharhau'r cynlluniau Rhyddhad Ardrethi Cymru ac Anghenion Lleol yn 2015/16 yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Gall unrhyw newidiadau yn y dyraniad canlyniadol yn dilyn

Datganiad yr hydref gan Lywodraeth y DU hefyd fod yn rhan o'r ystyriaethau hynny.

Wrth asesu gwerth a arian, bydd llwyddiant y cynlluniau ardrethi busnes yn cael ei fonitro gyferbyn â'r nifer a'r mathau o fusnesau sy'n cael y rhyddhad, a nifer y mangreoedd a adnewyddir neu a grëir.

Byd Ardrethi Busnes yn cael eu datganoli i Gymru o Ebrill 2015. Bydd hyn yn rhoi cyfle inni ystyried y drefn orau ar gyfer Cymru.

g) Cymorth Allforio a Chymorth ar gyfer Mewnfuddsoddi

Mae'r Tîm Masnach a Mewnfuddsoddi yn gweithio gyda'r timau sector, yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, swyddfa Llundain, swyddfeydd tramor a phartneriaid eraill (mewnol ac allanol). Mae'n cynorthwyo cwmnïau yng Nghymru i ryngwladoli drwy allforio ledled y byd ac i ddenu mewnfuddsoddi – yn uniongyrchol o wledydd tramor yn ogystal â buddsoddiadau o rannau eraill o'r DU. Er mai'r prif nod ar gyfer mewnfuddsoddi yw cynyddu'r stoc o gwmnïau yng Nghymru sydd mewn perchnogaeth dramor trwy ennill buddsoddiadau newydd, mae ailfuddsoddi hefyd wedi chwarae rhan arwyddocaol yn ein canlyniadau cyffredinol o ran mewnfuddsoddi, a bydd yn parhau i wneud hynny.

Yn 2015/16 mae £2.1m wedi ei ddyrannu ar gyfer masnach a gweithgarwch mewnfuddsoddi. Mae'r canlyniadau'n cael eu monitro'n fanwl o ran gwerth am arian. Mae adroddiad Masnach a Buddsoddi y DU (UKTI) am 2013/14 yn dangos mai'r nifer o brosiectau mewnfuddsoddi y llwyddwyd i'w denu i Gymru yn y flwyddyn i ddiwedd Mawrth 2014 oedd uchaf er pan ddechreuwyd eu cofnodi, ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Yn ogystal, oedd nifer y swyddi a enillwyd o'r newydd neu a ddiogelwyd dros 10,000, sef y nifer trydydd uchaf er pan ddechreuwyd cofnodi.

Mae'r cynnydd hwn yn nifer y prosiectau a enillwyd, sy'n dilyn y cynnydd o 191% yn 2012/13 o gymharu â 2011/12 – ac yn gyfuniad o fuddsoddiadau newydd, ehangu gan gwmnïau tramor a oedd yn bresennol eisoes a

gweithgarwch uno a chaffael cwmnïau – yn cynrychioli ychydig dros 4% o nifer cyfanswm y prosiectau mewnfuddsoddi uniongyrchol i'r DU.

Mae'r prosiectau a sicrhawyd yn addo creu dros 2,800 o swyddi newydd, ychydig dros 4% o gyfanswm y DU. Mae'r prosiectau yn cynnwys rhai gan Sony, Meritor, Airbus, General Dynamics, EE, Carey Glass a TongFang.

Ar gyfer masnach, y mesur perfformiad allweddol yw gwerth y busnes allforion newydd a sicrhawyd gan y cwmnïau y buom yn eu cynorthwyo. Yn 2013/14 adroddwyd am fusnes newydd gwerth £32.8m. Mae hyn yn cynrychioli enillion o 16:1 ar y buddsoddiad mewn gwariant rhaglen net.

h) Cymorth ar gyfer Menter Gymdeithasol

Wrth yrru ymlaen ag argymhellion y Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol cyfredol (2009), mae Llywodraeth Cymru yn darparu oddeutu £360,000 y flwyddyn i gyrff cymorth ac aelodaeth sy'n arbenigo mewn cymorth/gwasanaethau at ofynion unigol yn y sector mentrau cymdeithasol. Mae'r gyrff hyn yn gweithredu ochr yn ochr â'r gwasanaeth Busnes Cymru prif-ffrwd

Cynhaliwyd adolygiad gwerth am arian i oleuo penderfyniadau ynglŷn â'r cyllid craidd yn y dyfodol ar gyfer Cwmnïau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (DTAW). Mae canfyddiadau'r adolygiad hwnnw ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn

<http://cymru.gov.uk/topics/businessandconomy/help/vfmreviews/?lang=cy>.

Yn unol ag argymhellion yr Adolygad, terfynr y cyllid grant i DTAW o 31 March 2015.

Yn unol â'r canllawiau ynglŷn â dyrannu cyllid grant, cynhelir o leiaf bedwar cyfarfod monitro bob blwyddyn gyda Chanolfan Gydweithredol Cymru, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru er mwyn sicrhau y cyrhaeddir yr amcanion a'r targedau a osodir.

Ym mis Hydref 2012, yn dilyn adolygiad gwerth am arian, penderfynwyd terfynu'r cyllid a ddarperid i Gynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, y tu hwnt i'r ymrwymiad ar gyfer 2012/13. Cynhaliwyd Adolygiad gan Robert Lloyd Griffiths, Cadeirydd Bwrdd Strategol Busnes Cymru a Chyfarwyddwr (Cymru) sefydliad y Cyfarwyddwyr, a chwblhawyd yr Adolygiad yng Ngorffennaf 2014. Bydd yr argymhellion o'r Adolygiad yn cael eu halinio â'r argymhellion gan Gomisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid cyfatebol tuag at y Prosiect Cymorth i Fentrau Cymdeithasol gwerth £8m, a arweinir gan Ganolfan Gydwethredol Cymru. Mae'r prosiect yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o fentrau cymdeithasol ac yn darparu cymorth busnes arbenigol mewn ardaloedd Cydgyfeirio a Chystadleuol yng Nghymru.

Mae modd i'r ardaloedd yng Nghymru nad ydynt o fewn cwmpas y Prosiect Cymorth i Fentrau Cymdeithasol fanteisio, er gwaethaf hynny, ar gyngor arbenigol a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Anogir mentrau cymdeithasol i gysylltu hefyd â Busnes Cymru i gael cyngor cyffredinol a chymorth.

i) Partneriaeth ar gyfer Twf – Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru

Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad hollbwysig i les economaidd a chymdeithasol Cymru. Yn rhan o ymrwymiad llywodraeth y Cymru i gefnogi a datblygu'r sector twristiaeth, rhoddwyd i'r Bwrdd Cynghori Twristiaeth y dasg o ddatblygu cynigion ar gyfer Strategaeth Dwristiaeth newydd ar gyfer Cymru. Lansiodd y strategaeth dwristiaeth *Partneriaeth ar gyfer Twf 2013-2020* ym Mehefin y llynedd, a'i gweledigaeth gyffredinol yw twf o 10% mewn twristiaeth erbyn 2020.

Mae hwn yn darged heriol, gan y byddai twf real o 10% (ar ôl caniatáu am chwyddiant) yn gyfwerth â chynnydd o tuag 28% yng nghyfanswm y gwario gan ymwelwyr erbyn 2020 (os cynhwysir chwyddiant o 2% y flwyddyn). Fodd bynnag, mae blwyddyn gyntaf y strategaeth wedi dangos cyfradd twf uwch na'r gyfradd sydd ei hangen er mwyn gwireddu ein huchelgais, ynghyd â chynnydd yn nifer a gwerth teithiau, a oedd yn cynnal miloedd o swyddi ychwanegol.

Mae nifer o ddangosyddion strategol edi eu pennu, er mwyn monitro cynnydd y strategaeth gyferbyn ag ystod o ddeilliannau allweddol, gan gynnwys nifer yr ymwelwyr ac enillion o ymwelwyr, cyfran o'r farchnad, boddhad ymwelwyr a chyflogaeth mewn twristiaeth. Ategir y rhain gan gyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar wahân, sy'n mesur y cyfraniad i'r amcanion strategol a wneir gan Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng ei gweithgareddau.

Mae diweddariad manwl ar y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn gyntaf gyferbyn â'r strategaeth dwristiaeth a'i chynllun gweithredu fframwaith cysylltiedig ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://cymru.gov.uk/topics/tourism/abouttourism/stratdevreports/?lang=cy>

Mae gwybodaeth bellach wedi ei darparu ar wahân ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor i dwristiaeth, sydd wedi ei drefnu ar gyfer 2 Hydref 2014.

j) Sectorau Blaenoriaeth

Mae amcanion y sectorau blaenoriaeth wedi eu penderfynu gan y paneli sector ac wedi eu cyhoeddi yng nghynllun cyflawni'r sectorau, sydd ar gael yn:

<http://cymru.gov.uk/docs/det/publications/130125deliveryplanen.pdf>.

Mae'r dangosyddion allweddol ar gyfer swyddi a thwf yn cael eu monitro'n fanwl i sicrhau y defnyddir y gyfran fwyaf posibl o'r gwariant ar gyflawni Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu

Yn 2013/14 roeddem wedi darparu cymorth ar gyfer 37,000 o swyddi ledled Cymru. O gymharu tebyg â'i debyg, roedd hyn yn gynydd o 65% dros berfformiad y flwyddyn flaenorol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ystadegau sy'n cynnwys data ar Gwerth Ychwanegol Gros (GYG), swyddi cyflogaion, enillion yr awr fesul rhyw, cyflogaeth yn ôl lefel cymhwyster, a rhai amcangyfrifon awdurdod lleol:

<http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/priority-sector-statistics/?lang=cy>

Mae'r buddsoddiad yn ein naw sector allweddol wedi ei flaenoriaethu er mwyn targedu'r buddsoddi a chynnal mentrau meithrin gallu a fydd, ar y cyd, yn creu amgylchedd busnes cynaliadwy.

Oherwydd hyd a chymhlethdod rhai o'r prosiectau, mae'r gweithgarwch yn aml yn ymestyn dros nifer o flynyddoedd, gyda'r gwariant a'r cyflawni yn digwydd mewn blynyddoedd ariannol gwahanol.

k) Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru a Rhaglen Sêr Cymru

Mae'r Strategaeth Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru yn datgan ein gweledigaeth ynghylch lle Cymru yn y dyfodol mewn perthynas ag ymchwil, addysgu gwyddoniaeth, a masnacheiddio ymchwil er mwyn elwa yn economaidd. Mae'n darparu gwybodaeth hefyd am ein mentrau allweddol a sut y byddwn yn mesur llwyddiant. Mae'r Strategaeth Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<http://cymru.gov.uk/topics/businessandconomy/csaw/publications/130319sfw/?lang=cy>

Mae Diweddariad Blynyddol 2013/14 yn cynorthwyo'r gwaith a wnaed wrth gyflawni'r strategaeth, a gellir ei weld yn:

<http://cymru.gov.uk/topics/businessandconomy/csaw/publications/delivery-plan/?lang=cy>

Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer Sêr Cymru. Mae cynrychiolaeth rhyw yn parhau'n broblem hir-sefydlog yn y gweithlu gwyddonol (17% yn unig o'r athrawon prifysgol mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) yn y DU sy'n fenywod, er gwaethaf mentrau i wella amrywiaeth). Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y rhesymau am hyn yn gymhleth ac yn ymwneud â'r canfyddiad o'r pynciau STEM yn yr ysgolion, strwythur gyrfaoedd academiaidd, amllder contractau byrdymor yn y gweithlu AU ac

anhawster i gysoni bywyd teuluol â gwaith ymchwil sy'n galw am weithio oriau maith ac anghymdeithasol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae prifysgolion yng Nghymru a mannau eraill ledled y DU yn cymryd rhan mewn gwahanol gynlluniau megis Athena SWAN, Project Juno, Buddsoddwyr mewn Pobl, Stonewall Diversity Champions a mentrau cyffelyb i annog amrywiaeth yn y gweithlu ymchwil ac yn y sector AU yn gyffredinol.

I) Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd

Mae gofynion y Safonau'r Gymraeg arfaethedig, myn sgil gweithredu Mesur y Gymraeg 2011, yn galw am barhau arferion da a rhoi sylw i feysydd lle mae'n ofynnol gwella. Ni fydd yn rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn achosi unrhyw gostau. Mae nifer o ddarnau o waith dan ystyriaeth mewn perthynas â hyn.

Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd i archwilio'r berthynas rhwng y Gymraeg a Datblygu Economaidd ac argymhell dulliau ymarferol o feithrin perthynas gadarnhaol.

Roedd adroddiad y Grŵp, a gyhoeddwyd ar 21 Chwefror 2014, yn ceisio adeiladu ar yr arferion da blaenorol er mwyn gwneud argymhellon a oedd yn realistig a chyraeddadwy ac yn ymgynghraedd at ganlyniadau cadarnhaol i'r iaith ac i'r economi

Neges drosfwaol yr adroddiad yn ategu'r farn bod y Gymraeg yn rhan annatod o'r broses o greu amgylchedd busnes sefydlog a ffafriol, hyrwyddo sgiliau a buddsoddi mewn seilwaith, gan gynnwys trafndiaeth a thechnoleg gwybodaeth. Roedd casgliadau'r Grŵp yn adlewyrchu'r modd y mae'r iaith yn cryfhau hunaniaeth Cymru, sy'n bwysig ar gyfer datblygu'r brand Cymreig.

Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 6 Awst.

<http://cymru.gov.uk/topics/businessandconomy/policy/wled/?lang=cy>

3.2 Mesur Perfformiad – Allbynnau a Chanlyniadau

Mae'r Adran yn defnyddio ystod eang o ganlyniadau ac allbynnau i fesur cyflawniad. Yn rhan o'r Rhaglen Lywodraethu, defnyddir cyfres o ddangosyddion macro-economaidd er mwyn deall cynnydd economaidd:

- Incwm Gwario Gros yr Aelwyd (IGGA) y pen
- Prif Incwm y pen
- Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) y pen
- Cyfradd gyflogaeth.

Ni ddylid ystyried y rhain yn ddangosyddion y gall polisïau Llywodraeth Cymru, ar eu pen eu hunain, obeithio dylanwadu arnynt yn uniongyrchol, yn amlwg nac yn sylweddol, yn enwedig yn y tymor byr.

Defnyddir ystod eang o ddangosyddion i fesur cyflawniad yn y meysydd gweithredol o EGT, ac mae'r rhain yn gyfuniad o dangosyddion gweithgaredd a chanlyniadau. Cawsant eu datblygu i fodloni'r gofynion am set o ddangosyddion allweddol craidd, i'w defnyddio ar draws pob maes gweithredol, i gydymffurfio ag unrhyw reoliadau WEFO pan ddefnyddir cyllid Ewropeaidd, ac i ddarparu dangosyddion lleol ar gyfer meysydd busnes unigol.

Yn rhan o'r broses cynllunio busnes flynyddol, mae EGT yn mynnu bod meysydd busnes yn cyflwyno targedau sylfaenol gyferbyn â'r dangosyddion pan fo'r cyllidebau wedi eu cytuno.

3.3 Gwario Ataliol

Fel y dywedwyd uchod, mae'r Gyllideb Ddrafft yn rhoi blaenoriaeth eglur i gyflymu adferiad economaidd, creu cyfleoedd cyflogaeth a gosod y sylfeini ar gyfer hyrwyddo twf economaidd hirdymor a chymunedau cynaliadwy. Mae cyflogaeth yn cynnig lefel uchel o ddiogelwch rhag tlodi i unigolion a theuluoedd. Rydym yn gweithio i fynd i'r afael â diweithdra a thlodi drwy annog a cynorthwyo creu a chadw swyddi ledled Cymru.

Mae'r gyllideb gyfan ar gyfer yr Economi Gwyddoniaeth yn cefnogi ymyriadau sydd â'r nod o sicrhau twf yn yr economi er mwyn gwella ffyniant. Yn nhermau gwario ataliol, bydd hyn yn arwain at a ganlyniadau cadarnhaol ym meysydd iechyd a heriau cymdeithasol, ac yn helpu i sefydlu cymdeithas decach a mwy cydradd.

Mae'r gyllideb Gwyddoniaeth ac Arloesi hefyd yn darparu cymorth pwysig i wella addysg, hyfforddiant ac ymchwil, a fydd yn gymorth i fynd i'r afael â diweithdra.

4.0 YR ECONOMI A GWYDDONIAETH- CYLLIDO MEYSYDD Y RHAGLEN GWARIANT

Mae cyfanswm arfaethedig y gyllideb ar gyfer yr Economi a Gwyddoniaeth yn 2015/16 yn llai o £27.938m o gymharu â Chyllideb Atodol 2014/15 (ac eithrio Gwariant a Reolir y Flynyddol).

Mae hyn yn cynnwys lleihad yn y gyllideb adnoddau o £27.438m o ganlyniad i ostyngiadau refeniw, dyraniadau yn ystod y flwyddyn yn 2014/15 a lleihad o £0.5m yn y cyllidebau cyfalaf, fel y dangosir yn y tabl isod.

	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid 2015/16 £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Refeniw	113,696	(27,438)	86,258
Nad yw'n Arian	1,309	-	1,309
Cyfalaf	123,647	(500)	123,147
Cyfanswm	238,652	(27,938)	210,714

4.1 Sectorau a Busnes

MRhG	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Sectorau a Busnes	Refeniw	51,065	(3,532)	47,533
	Cyfalaf	83,144	8,489	91,633
	CYFANSWM	134,209	4,957	139,166

Mae'r cyfanswm cyllideb o £139.166m yn 2015/16 yn darparu ar gyfer Sectorau, Cronfa Fuddsoddi Sengl (CFS) Etifeddol, Entrepreneuriaeth a Gwybodaeth Busnes, Masnach a Mewnfuddsoddi ac Ardaloedd Menter. Mae'r gostyngiad o £3.532m yn y gyllideb refeniw i'w briodoli i nifer o newidiadau cynyddrannol rhwng blynyddoedd a symudiadau mewn meysydd cyllideb yn 2014/15 er mwyn alinio ymrwymadau. Mae'r cynnydd net o £8.489m yn y gyllideb gyfalaf yn adlewyrchu dyraniadau ychwanegol net £25.5m o'r cronfeydd canolog wrth gefn ar gyfer cronfeydd Cyllid Cymru a'r gronfa trafodion ariannol. Gwrthbwsir hyn gan y gostyngiad yn y gyllideb o £20m ar gyfer y dyraniad untro ar gyfer Cronfa Twf Economaidd Cymru (WEGF2).

Bydd y cyllid trafodion ariannol ychwanegol o £3m yn galluogi buddsoddi targededig mewn datblygu llwybrau ar gyfer Cardiff Wales Airport Ltd.

Mae'r cyllidebau Sectorau a Busnes yn allweddol ar gyfer cyflawni gyferbyn a'r Rhaglen Lywodraethu, yn y meysydd ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy, trechu tlodi ac addysg a chyfle cyfartal.

4.2 CFS Etifeddol

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
CFS Etifeddol	Refeniw	1,703	(500)	1,203
	Cyfalaf	10,325	0	10,325
	CYFANSWM	12,028	(500)	11,528

Mae'r gyllideb hon yn cynorthwyo ymrwymadau contractiol yr Adran o dan y cynlluniau etifeddol CFS/CRhD i dalu'r grantiau a gynigiwyd i gwmnïau a leolir yng Nghymru, os yw'r amodau a'r targedau twf a swyddi wedi eu cyflawni. Mae'r gostyngid o £0.5m yn adlewyrchu'r gostyngiad yn yr ymrwymiad wrth i brosiectau gael eu cwblhau.

4.3 Sectorau

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Sectorau	Refeniw	36,264	1,821	38,085
	Cyfalaf	72,819	8,489	81,308
	CYFANSWM	109,083	10,310	119,393

Mae'r gyllideb o £119.393m yn cynorthwyo cyflawni'r blaenoriaethau Sector, Ardaloedd Menter, a Masnach a Mewnfuddsoddi. Rhoddir dadansoddiad manwl o'r gweithgareddau, fesul Llinell Wariant yn y Gyllideb, yn Atodiad A. Mae'r cyllidebau sector wedi eu hail-flaenoriaethu yn gyffredinol, gyda chynnydd net yn y gyllideb refeniw o £1.821m. Mae hyn yn cefnogi mentrau newydd yn y Sector TGCh yn benodol, megis arloesi digidol a phrifysgol feddalwedd. Yn ychwanegol, mae £1,2m am weithgaredd marchnata wedi ei drosglwyddo i Dwristiaeth er mwyn cydgrynhai mentrau rhyngwladol.

Mae'r gyllideb Sectorau yn cynnwys dyraniad ar gyfer gweithgaredd piblinellau o £12.5m, er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael i ymateb yn ddiymdroi wrth i brosiectau gael eu datblygu, a dyraniad Cyllid Trafodion Ariannol o £27.5m ar gyfer cronfeydd datblygu busnes.

Mae'r cynnydd o £8.489m yng nghyllideb cyfalaf 2015/16 ar gyfer Sectorau yn adlewyrchu dyraniadau ychwanegol o gronfeydd wrth gefn a chyllid trafodion ariannol fel a ganlyn:

1. Cyllid trafodion ariannol ychwanegol o £3m yn 2015/16 i gefnogi datblygu llwybrau ym Maes Awyr Cymru Caerdydd. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynyddu'n sylweddol y potensial masnachol i ddenu cwmnïau hedfan newydd, a chefnogi datblygid economaidd hirdymor.
2. Symudiad o £5.5m mewn cyllid trafodion ariannol a gyhoeddwyd yn gynharach ar gyfer cronfeydd Cyllid Cymru, o £30.5m, a wrthbwyswyd gan ddyraniadau untro yn 2014/15, o £20m ar gyfer WEGF2 a £5m ar gyfer Maes Awyr Cymru Caerdydd.

4.4 Entrepreneuriaeth

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Entrepreneuriaeth a Gwybodaeth Busnes	Refeniw	13,098	(4,853)	8,245
	CYFANSWM	13,098	(4,853)	8,245

Mae'r gyllideb Entrepreneuriaeth a Gwybodaeth Busnes yn cynorthwyo entrepreneuriaeth ieuencid, cychwyn busnesau, BBaChau a microfusnesau, ac arferion busnes cyfrifol. Mae'n sicrhau hefyd bod y sector cydfuddiannol a chydweithredol yn cael mynediad at gyngor busnes priodol a chadarn. Bydd arferion busnes cyfrifol yn hwyluso ymrwymadau gan fusnesau i ymgymryd â

chyfrifoldeb cymdeithasol, trwy wneud yn ofynnol bod busnesau'n ymddwyn yn foesebol ac yn cyfrannu'n bositif i ddatblygiad yr economi.

Mae'r gostyngiad o £4.853m i'w briodoli i'r cyfraddau ymyrryd uwch ar gyfer rhaglenni UE yn y cylch 2014-2020, ac ail-broffilio incwm UE ar Entrepreneuriaeth. Bydd lawrdynnu arian UE yn cael blaenoriaeth ar ddechrau'r rhaglen newydd. O ganlyniad, bydd y gofyniad cyllideb yn is ym mlynnyddoedd cynnar y prosiectau, ond yn cynyddu wrth i'r rhaglen gael ei chyflawni.

4.5 Gwyddoniaeth ac Arloesi

MRhG	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Gwyddoniaeth ac Arloesi	Refeniw	13,202	(3,256)	9,946
	Cyfalaf	11,979	(9,000)	2,979
	CYFANSWM	25,181	(12,256)	12,925

Bydd y cyllid o £12.925m yn cynorthwyo mentrau i gyflawni'r Strategaeth Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru a'r Strategaeth Arloesi.

4.6 Gwyddoniaeth

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Gwyddoniaeth	Refeniw	3,310	2,259	5,569
	Cyfalaf	11,479	(9,000)	2,479
	CYFANSWM	14,789	(6,741)	8,048

Mae'r gyllideb yn cynnwys cyllid refeniw a chyfalaf of £8.048m i gynorthwyo'r mentrau Sêr Cymru a'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol (AWG). Mae'r

dyraniad refeniw ychwanegol o £2.259m yn 2015/16 yn cynorthwyo'r proffil cyflawni cyfredol ar gyfer rhaglen Sêr Cymru, sy'n amcanu i gryfhau galluoedd ymchwil prifysgolion Cymru drwy ddarparu cymorth i ddenu ymchwilwyr gwyddonol o safon fyd-eang i Gymru. Mae'r cyllid yn cyfrannu i gyfanswm ymrwymiad Llywodraeth Cymru o £50m i'r rhaglen bum-mlynedd hon, a gynorthwyr hefyd allan o'r cyllidebau lechyd ac Addysg

Mae'r AWG yn annog diddordeb mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (y pynciau "STEM") ymysg pobl ifanc ac oedolion. Mae'r AWG yn cydweithio â phartneriaid ledled Cymru i gydgyssylltu, cyflawni a chefnogi gweithgareddau a digwyddiadau 'allgymorth' STEM.

Mae lleihad o £9m yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2015/16 oherwydd bod cyllideb 2014/15 yn cynnwys dyraniad untro o £9m ar gyfer y datblygid Parc Gwyddoniaeth Menai yng ngogledd Cymru.

4.7 Arloesi

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Arloesi	Refeniw	9,892	(5,515)	4,377
	Cyfalaf	500	-	500
	CYFANSWM	10,392	(5,515)	4,877

Dyrennir cyllid o £4.877m annog busnesau i fuddsoddi mewn arloesi a datblygu cysylltiadau â'r byd academiaidd drwy'r rhaglenni Arloesi ar gyfer Busnes, A4B, a SMART Cymru. Mae'r rhain i gyd yn brosiectau a gyllidir gan yr UE.

Mae gostyngiad o £5.515m yn y gyllideb refeniw oherwydd cyfradd ymyrryd uwch yn y rhaglenni UE a'r newid proffil i lawrdynnu cyllid UE ym mlynnyddoedd cynnar y rhaglenni newydd. Yn ychwanegol, rhagwelir y bydd y posibilrwydd o gyd-gyllido rhaglenni newydd gan ddefnyddio cyllid allanol yn rhyddhau'r

gyllideb ddomestig.

4.8 Digwyddiadau Mawr

MRhG	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Digwyddiadau Mawr	Refeniw	4,456	(538)	3,918
	CYFANSWM	4,456	(538)	3,918

Bydd y gyllideb o £3.918m ar gyfer Digwyddiadau Mawr yn cynorthwyo gwaith a wneir gyda ffederasiynau chwaraeon cenedlaethol, y DU a rhyngwladol i sicrhau bod rhagor o ddigwyddiadau mawr yn cael eu cynnal yng Nghymru. Yn 2015, gyda chymorth o'r gyllideb Digwyddiadau Mawr, bydd maes Criced Morgannwg yn atgyfnerthu ei statws fel un o brif gyrchfannau criced rhyngwladol y byd, trwy groesawu Gêm Brawf arall yn erbyn Awstralia; ac yn Stadiwm y Mileniwm y chwaraeir wyth o gemau Cwpan Rygbi'r Byd (gan gynnwys dwy o'r gemau gogynderfynol). Mae'r gyllideb hefyd yn cynorthwyo ystod helaeth o ddigwyddiadau diwylliannol, megis Gŵyl y Gelli Gandryll, Gŵyl Gomeddi Machynlleth, Gŵyl Rhif 6 ym Mhortmeirion (a enillodd wobwr NME i'r ŵyl newydd orau yn 2013) a Chyngres cymdeithas y Gwyliau Annibynnol.

Mae'r gostyngiad o £0.538m yn ganlyniad newid rheoledig yn unol â'r blaenoriaethau gwariant.

4.9 Seilwaith

MRhG	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Seilwaith	Refeniw*	19,446	(775)	18,671
	Cyfalaf	28,456	-	28,456
	CYFANSWM	47,902	(775)	47,127

*gan gynnwys TGA adnoddau anghyllidol o £1,309k

Mae cyllideb 2015/16 o £47.127m yn darparu cymorth ar gyfer Seilwaith Cysylltiedig ag Eiddo, Seilwaith TGCh a'r prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru (BEGNIG – A elwir hefyd Cyflymu Cymru).

4.10 Seilwaith TGCh

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Cyflenwi	Refeniw*	7,986	(700)	7,286
Seilwaith	Cyfalaf	26,304	-	26,304
TGCh	CYFANSWM	34,290	(700)	33,590

* heb gynnwys TGA adnoddau anghyllidol o £1,309k

Mae'r gyllideb Seilwaith TGCh o £33.590m yn cynorthwyo cyflawni nifer o brosiectau allweddol gan gynnwys y prosiect Cyflymu Cymru (a drafodwyd yn gynharach) a Phrosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus.

Yn y Rhaglen Lywodraethu a'r y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru cyfeirir yn benodol at fuddsoddi mewn seilwaith TGCh y. Mae seilwaith TGCh o ansawdd uchel yn anhepgorol er mwyn creu economi ddigidol ffyniannus a chystadleuol a chynyddu twf, swyddi a chyfoeth. Ystyrir bod mynediad i wasanaethau band eang dibynadwy yn gyfleustod busnes hanfodol yn yr oes fodern. Mae'n gwneud yn bosibl lleoli busnesau mewn unrhyw fan, a gall wella'r cyfleoedd ar gyfer entrepreneuriaeth a chreadigrwydd busnes, yn enwedig busnesau bach a microfusnesau. Trwy fod ar-lein, mae modd i fusnesau gwledig gyrraedd marchnadoedd newydd a chynyddu eu gwerthiannau, gan greu twf a chyfleoedd swyddi yn lleol.

Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA)

Rhwydwaith a reolir yw'r PSBA ,sy'n cysylltu bron bob maes o'r sector cyhoeddus yng Nghymru â rhwydwaith diogel – ar gyfer ei ddefnyddio gan y sector cyhoeddus yn unig. Mae'n darparu rhwydweithio a gwasanaethau

cysylltiedig yng Nghymru, yn gymorth i gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd yn effeithiol ac effeithlon. Mae'n alluogydd allweddol ar gyfer cyflawni nifer o ymrwymadau Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu

Mae'r PSBA yn darparu mecanwaith ar gyfer cydgrynhoi'r galw am wasanaethau rhwydweithio ardal eang, ac ar gyfer eu caffael ar y cyd. Mae'n gosod sylfaen ar gyfer integreiddio gwasanaethau cyhoeddus yn agosach at ei gilydd, a sicrhau arbedion maint na fyddai modd i'r un partner eu cael ar ei ben ei hunan.

Mae'r prosiect wedi bod ar waith ers saith mlynedd, a nifer y partneriaid (y cyfeirir atynt fel 'Sefydliadau Derbyn') bellach dros 80, a'r rhwydwaith yn cwmpasu dros 3,500 o safleoedd. Mae'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n defnyddio PSBA yn cynnwys yr awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaethau tân ac achub, addysg bellach ac uwch, y GIG a chyrff eraill a gyllidir gan y cyhoedd.

Ar hyn o bryd mae'r contract PSBA newydd yn cael ei ail-gaffael, gyda golwg ar sicrhau rhagor o werth am arian a gosod sylfaen gadarn ar gyfer cydweithio a phartneriaeth ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r cynigiwr wedi ei ddewis oddi ar y rhestr fer, mae'r eglurhadau bellach yn cael eu darparu, a disgwylir y bydd contract newydd yn cychwyn ar 1 Rhagfyr 2014.

Mae'r rhaglen waith wedi ei hail-flaenoriaethu yn ystod y flwyddyn i sicrhau gostyngiadau refeniw £0.7m ar gyfer PSBA a Chynlluniau TGCh.

4.11 Eiddo

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Seilwaith cysylltiedig ag eiddo	Refeniw	10,151	(75)	10,076
	Cyfalaf	2,152	-	2,152
	CYFANSWM	12,303	(75)	12,228

Mae'r gyllideb o £12.228m ar gyfer Seilwaith Cysylltiedig ag Eiddo yn cwmpasu rheoli a datblygu'r portffolio eiddo, gweithgarwch adfer tir a chynigion eiddo i fusnesau. Mae'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar fodloni'r blaenoriaethau sector a'r blaenoriaethau gofodol o fewn EGT.

Mae'r gostyngiad o £0.075m yn y gyllideb refeniw yn adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd yn rheolaeth y portffolio, o ganlyniad i drefniadau newydd ar gyfer rheoli cyfleusterau, a gyflwynwyd ym Medi 2013

4.12 Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol

MRhG	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedi g 2015/16 £'000
Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol	Refeniw	26,836	(19,337)	7,499
	Cyfalaf	68	11	79
	CYFANSWM	26,904	(19,326)	7,578

Mae'r gyllideb o £7.578m yn 2015/16 yn cynorthwyo'r cyllid craidd ar gyfer Cyllid Cymru, Marchnata, y Rhaglen Her Iechyd Cymru, ad-daliadau i'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethola gweithgaredd cynorthwyo strategaeth. Mae'n darparu cymorth hefyd ar gyfer dadansoddi economaidd a datblygiadau mewn deddfwriaeth sy'n sail i lawer o'r penderfyniadau gwariant.

4.13 Rhaglenni Corfforaethol

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Rhaglenni	Refeniw	3,147	(114)	3,033

Corfforaethol	Cyfalaf	68	11	79
	CYFANSWM	3,215	(103)	3,112

Mae'r gostyngiad refeniw o of £0.114m yn adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd yng nghostau gweithredu'r gronfa ddata Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, trwy ail-gwmpasu'r rhaglenni adrannol TGCh creiddiol.

Mae'r gyllideb cyfalaf yn cynorthwyo proffil ad-daliadau'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

4.14 Marchnata

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Marchnata	Refeniw	2,815	(1,200)	1,615
	CYFANSWM	2,815	(1,200)	1,615

Mae Marchnata yn cynorthwyo ymgyrchoedd a gweithgareddau i gynorthwyo cyfathrebu a chyflawni rhaglen a phrosiectau'r Adran yn llwyddiannus. Mae'r mentrau hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cyfathrebu cynigion i fusnesau a datblygu brand Cymru.

Trosglwyddwyd y gyllideb o £1.2m ar gyfer marchnata seilwaith a marchnata rhyngwladol i'r gyllideb Sectorau, er mwyn alinio'r cyflawni â Thwristiaeth.

4.15 Cyllid Cymru

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Cyllid Cymru	Refeniw	3,000	(600)	2,400
	CYFANSWM	3,000	(600)	2,400

Mae'r gyllideb hon yn darparu grant gweithredu i Gyllid Cymru sy'n cynorthwyo gweinyddu cronfeydd buddsoddi ar gyfer busnesau.

Gwnaed gostyngiad o £0.6m yn y grant gweithredu ar ôl canfod arbedion effeithlonrwydd gweithredol.

4.16 Rhaglenni Strategaeth

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Rhaglenni	Refeniw	17,874	(17,423)	451
Strategaeth	CYFANSWM	17,874	(17,423)	451

Mae'r gyllideb yn cynorthwyo dadansoddi economaidd ac ymgysylltu strategol er mwyn goleuo penderfyniadau gwariant ar strategaethau allweddol.

Roedd cyllideb 2014-15 yn cynnwys swm canlyniadol o £17.423m ar gyfer ardrethi busnes. Bydd ardrethi annomestig yn cael eu datganoli o 1 Ebrill 2015 ymlaen. Caiff y swm canlyniadol ar gyfer 2015-16 ei gadarnhau pan wneir penderfyniadau ynghylch cynlluniau ardrethu.

5.0 TRAFNIDIAETH

Mae gan Drafnidiaeth ran allweddol i'w chwarae o ran gwella gallu Cymru i gystadlu a darparu gwell mynediad at swyddi a gwasanaethau. Mae'r rhaglen gyfredol o fuddsoddi mewn trafndiaeth yn sicrhau y canolbwyntir ar wella cystadleurwydd economaidd Cymru. Nid oes amheuaeth ynghylch pwysigrwydd system drafnidiaeth fforddiadwy, effeithiol ac effeithlon ar gyfer trechu tlodi, ac mae system o'r fath yn rhan annatod o'r ymyriadau a'r polisïau ar gyfer twf a swyddi.

Rydym felly yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn gwelliannau seilwaith trafnidiaeth mawr megis gwelliannau ar ffyrdd yng Nghoridor yr M4 o amgylch Casnewydd, yr A465 o Fryn-mawr i Dredegar, yr A487 o Gaernarfon i Bontnewydd a Ffordd Gyswllt Dwyrain Bae Caerdydd. Gan gydnabod rhan y rheilffyrdd mewn hyrwyddo twf economaidd a gwella'r mynediad at swyddi a gwasanaethau, rydym hefyd wedi buddsoddi i gyflymu'r gwelliannau yng nghapasiti'r rhwydwaith a hygyrchedd ac ansawdd y gorsafoedd.

Rydym yn parhau i fuddsoddi adnoddau sylweddol iawn mewn gwasanaethau trafnidiaeth, gan gynnwys y fasnachfaint rheilffyrdd, y cynllun tocynnau consesiynol a grantiau i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau bysiau.

Un mater allweddol y maer Adran yn canolbwyntio arno yw datblygu Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol newydd, a bwriedir ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori arno cyn diwedd 2014.

Bydd hynny'n darparu cyd-destun a thystiolaeth i oleuo penderfyniadau ynghylch pob buddsoddiad mewn trafnidiaeth, yn ogystal â gwybodaeth am lefel hygyrchedd safleoedd cyflogaeth a gwasanaethau cyhoeddus allweddol i wahanol gymunedau. Gan ddefnyddio'r wybodaeth honno, bydd y Cynllun yn nodi'r mathau o ymyriadau sydd eu hangen i wella'r hygyrchedd.

Bydd hefyd yn pennu ein blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer buddsoddi gan eraill. Er enghraifft, y safleoedd blaenoriaeth ar gyfer gorsafoedd rheilffordd newydd – materion na ellid eu gyrru ymlaen heb lawrdynnu cyllid gan Lywodraeth y DU

5.1 Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu

Mae'r tabl yn Atodiad B yn cynnwys mapiad o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu ynghyd â manylion o'r costau cysylltiedig

5.2 Polisïau Allweddol

Darperir gwybodaeth ychwanegol yn ateb i'r ceisiadau penodol a wnaed gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:

a) Datblygiadau'r M4

Yn dilyn asesiad ar y lefel strategol ac ymgynghoriad, cyhoeddwyd Cynllun a Llwybr a Ffeirir ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd ar 16 Gorffennaf 2014 (mae dolen i'r datganiad llafar yn:

<http://cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2014/9026924/?lang=cy>)

b) Darpariaeth ar gyfer y Bil Teithio Llesol

Disgwylir y bydd gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gan gynnwys cydymffurfio â'r gofynion o ran dylunio ac ymgynghori a'r mapiau rhwydwaith integredig yn costio £289,650 yn 2015/16.

Bydd y costau o wneud gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn yn cael eu penderfynu gan argaeledd cyllideb. Bydd costau gwella'r ddarpariaeth mewn cynlluniau ffyrdd newydd yn cael eu hystyried fel ffactor mewn perthynas â chostau cynlluniau presennol.

Telir y costau hyn allan o Cerdded a Beicio a'r cyllidebau strategaeth .

Mae'r gwaith ar deithio llesol yn cael ei gydgysylltu'n fanwl rhwng y ddwy Adran, ac mae'r cyllid ar gyfer teithio llesol yn dod yn bennaf o fewn y portffolio. Mae swyddogion Trafnidiaeth yn cynorthwyo'r Gweinidog Adnoddau Naturiol ynglŷn â chyflawni.

Nid effeithir ar y gyllideb Drafnidiaeth gan unrhyw ddeddfwriaeth y DU .

c) Cyfleoedd i'r sector Trafnidiaeth, a ddarperir gan gyllid UE

Rydym wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyfleoedd a ddarperir gan gyllid UE, gan gynnwys manteisio ar y Cyfleuster Cysylltu Ewrop, ac wedi darparu diweddariadau rheolaidd i'r Aelodau ynglŷn â'n hymgysylltiad.

Rydym wedi cychwyn deialog gyda phorthladdoedd a Llywodraeth Iwerddon ynghylch prosiectau posibl o dan 'Traffyrdd y Môr' (*'Motorways of the Sea'*), sef un o'r blaenoriaethau Llorweddol o dan TEN-T, ac yr ydym yn barod i ddechrau trafod yn uniongyrchol gyda'r Asiantaeth Weithredol Arloesi a Rhwydweithio (*Innovation and Networks Executive Agency*) (sef adran dechnegol DG MOVE) unwaith y cawn ragoro o fanylion brosiectau y gellir cynnig amdanynt .

Rhaid cydnabod, fodd bynnag, mai cymharol gymedrol yw'r swm sydd ar gael o dan TEN-T i wladwriaethau nad ydynt newydd eu derbyn. Mae'r broses o gynnig yn un gystadleuol a'r galw yn debygol o fod yn llawer mwy na'r cymorth sydd ar gael, oherwydd nifer a maint y prosiectau tebygol.

d) Buddsoddi mewn trafndiaeth reilffordd, bysiau a chymunedol

Mae'n rhaglen o fuddsoddi mewn rheilffyrdd ledled Cymru yn parhau. Yn 2014-15 rydym yn cyflawni'r canlynol:

- Cynlluniau o dan y Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd yn Aberystwyth, Rhyl, Pontypridd ac Ystrad Mynach.
- Gosod crybiau mynediad o dan y cynllun Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd Plws mewn nifer o orsafoedd ledled Cymru.
- Prosiectau gwella Mynediad i Bawb yn y Waun ac Ystrad Mynach
- Prosiectau o dan gynllun Adnewyddu Signalau Ardal Caerdydd ym Mhontypridd, y Barri a Thir-phil.
- Cwblhau'r prosiect gwella amseroedd taith / capasiti Gogledd-De
- Cwblhau gorsaf newydd yn Pye Corner ar Lein Glynebwy.

Yn 2015-16 byddwn yn cyflawni'r canlynol:

- Cynlluniau gwella mynediad haen ganol yn Radyr, Llandaf, Y Waun, Machynlleth ac Ystrad Mynach.
- Cynllun Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd ym Mhort Talbot.
- Bydd gwaith yn cychwyn hefyd i uwchraddio mynediad yn y Barri, Cathays, Fflint, Llanelli, Ffynnon Taf, Trefforest, a Threherbert.

cyhoeddwyd diweddariad ynglŷn â Metro De Cymru yn Awst 2014 a gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://cymru.gov.uk/docs/det/report/140826-cardiff-metro-update-report-august-2014-cy.pdf>

Yn 2014-15, o dan y pecyn cynlluniau Metro Cyfnod 1, byddwn yn cyflawni'r canlynol:

- Cwblhau Gorsaf Bysiau Casnewydd.
- Estyn Lein Glynebwy ac adeiladu gorsaf newydd yn Nhref Glynebwy.
- Cwblhau pecyn o nifer o lwybrau teithio llesol.

Yn 2015-16 byddwn yn cyflawni'r canlynol:

- Gwelliannau i Lein Glynebwy er mwyn gwella amllder.
- Pecyn o gynlluniau blaenoriaeth bysiau ledled De-ddwyrain Cymru.
- Gwelliannau mewn nifer o orsafoedd rhwng Caerdydd a Merthyr Tudful.

Bydd gwelliannau i'r gwasanaethau bysiau pellter hir TrawsCymru yng Ngogledd Cymru, ar y llwybrau T3 Y Bermo i Wrecsam a T2 Bangor i Aberystwyth yn cychwyn ym mis Tachwedd. Bydd y gwelliannau hyn yn cynnwys:-

- Gwasanaethau yn amlach yn ystod y dydd (cynnydd o 20% yn amllder T3).
- Mae cyflwyno cyfleusterau cludo beiciau ar y gwasanaeth T3 wedi galluogi pobl i gyrraedd rhannau poblogaidd o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol

yng ngogledd Cymru megis Llwybr Mawddach ger Dolgellau a Llwybr Camlas Llangollen.

- Cyflwynir tocynnau mwy fforddiadwy ar y ddau lwybr TrawsCymru, megis y tocyn Bwmerang a fydd yn cynnig disgownt ar benwythnosau, gyda'r nod o annog pobl ifanc i ddefnyddio'r gwasanaethau.

Mae gwaith ar droed i wella'r cydgysylltu rhwng gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd yn Nyffryn Conwy trwy ddarparu tocynnau ar y cyd, gwella'r gwasanaethau bysiau mewn cymunedau gwledig, a hwyluso mynediad ohonynt i orsafoedd rheilffordd a chanolfannau allweddol yn y Dyffryn. Ategir hyn drwy ddarparu gwell gwybodaeth i deithwyr

Ynglŷn â Chynllun Partneriaeth Ansawdd Bysiau Arfordir Gogledd Cymru, rydym yn cydweithio gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau i ddarparu pecyn o wasanaethau gwell, a fydd yn cysylltu canolfannau allweddol ar arfordir gogledd Cymru o Dreffynnon i Landudno. Amcanion y Cynllun yw ychwanegu at amllder ac oriau gweithredu'r gwasanaethau, darparu gwell cysylltiadau â chyfleusterau gofal iechyd allweddol, ac integreiddio'n well gyda'r rhwydwaith rheilffyrdd.

Mae'r gwelliannau i drafnidiaeth gymunedol ym Meirionnydd yn cynnwys cyllid i Gyngor Gwynedd i wella argaeledd gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol hygyrch yn ardal Dolgellau.

e) Cynlluniau Trafnidiaeth Cenedlaethol o 2015 ymlaen

Rydym wedi darparu canllawiau i awdurdodau lleol yn gynharach eleni, i oleuo'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol; ac yn ddiweddar wedi diwygio'r is-ddeddfwriaeth ar y modd y gall awdurdodau lleol ymuno â'i gilydd i lunio Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd. Gwyddom fod y gwaith o baratoi'r cynlluniau hyn yn mynd rhagddo, a bod awdurdodau lleol mewn llawer rhan o Gymru yn cydweithio i baratoi cynlluniau ar y cyd.

Mae gwaith ar y Cynlluniau Trafnidiaeth Cenedlaethol hefyd ar droed, a'r ymarferiad cwmpasu ar gyfer yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Strategol wedi cychwyn. Ein bwriad yw ymgynghori ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Drafft tua diwedd mis Hydref.

Materion pwysig y canolbwyntiwyd arnynt wrth ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol oedd datblygu'r sylfaen o dystiolaeth a nodi materion rhanbarthol. Mewn rhai achosion bydd gweithredoed penodol i roi sylw i flaenoriaethu rhanbarthol wedi eu cynnwys yn y Cynllun drafft, ac en achosioneraill byddwn yn ymrwymo i weithio ymhellach er mwyn canfod ymyriadau penodol.

5.3 Gwariant Ataliol

O ran darparu gwell canlyniadau, mae mesurau gwariant ataliol yn bwysig ar gyfer y tymor hir. Gellir ystyried y rhan fwyaf o'r gwariant Trafnidiaeth ar raglenni a pholisïau ynglŷn â thocynnau consesiynol, rheoli rhwydwaith a diogelwch ffyrdd yn wariant ataliol.

Mewn asesiad o'r buddion a enillwyd o ganlyniad i gynllun tocynnau consesiynol, o bersbectif gwariant ataliol, canfuwyd:

- £10.5m yn anuniongyrchol mewn buddion iechyd a gofal cymdeithasol o ganlyniad i'r cynllun tocynnau consesiynol. Mae'r cynllun yn hyrwyddo rhagor o weithgarwch corfforol ac o ryngweithio cymdeithasol – dwy nodwedd y tybid eu bod yn osgoi neu'n gohirio dementia, ac felly'n gohirio'r angen i awdurdodau lleol gyllido gofal preswyl. Mae'n arbed costau hefyd i'r GIG, trwy leihau nifer neu ohirio amrywiaeth o gyflyrau iechyd.
- Mae hyn yn golygu yr arbedir tua 14c i'r cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol am bo £1 a werir ar docynnau consesiynol.
- Mae'r cynllun yn ddarostyngedig i'r cytundeb lluosflynyddol gyda gweithredwyr bysiau. Yn rhan o'r broses o lunio unrhyw gytundeb newydd, rhaid gweithredu'r egwyddor 'dim enillion net, dim colled net', a rhaid profi'r gyfradd ad-dalu. Mae hyn yn sicrhau gwerth am arian.

6.0 CYLLID TRAFNIDIAETH AR GYFER MEYSYDD RHAGLENNI GWARIANT

O gymharu â 2014/15, mae cynnydd o £40.271m yng nghyfanswm y gyllideb Trafnidiaeth ar gyfer 2015/16, a gyfansoddir o ostyngiad referniw o £1.529m a chynnydd cyfalaf o £41.8m.

	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Refeniw	306,970	(1,529)	305,441
Nad yw'n arian	108,691	-	108,691
Cyfalaf	296,349	41,800	338,149
Cyfanswm	712,010	40,271	752,281

6.1 Gweithrediadau Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd

MRhG	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Gweithrediadau Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd	Refeniw	61,455	(3,666)	57,789
	Cyfalaf	71,450	(8,900)	62,550
	CYFANSWM	132,905	(12,566)	120,339

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol yn uniongyrchol am y Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd, sef un o asedau seilwaith pwysicaf Cymru. Mae'n gymorth i gyflawni llawer o ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd polisi, gan gynnwys yr economi, iechyd ac addysg, ac y mae cost adnewyddu disbrisedig y Rhwydwaith yn fwy na £13bn. Mae'n hanfodol, felly, bod cyllid digonol ar gael i gynnal y rhwydwaith yn y cyflwr sy'n ofynnol er mwyn

i Lywodraeth Cymru gyflawni ei dyletswyddau statudol a chyrraedd ei hamcanion polisi ehangach ar gyfer Cymru.

Ar 4 Mehefin 2014, dyroddwyd datganiad ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer rheoli Traffyrdd a Chefnffyrdd yng Nghymru:

<http://cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2014/motorwaytrunkroads/?lang=cy>

Mae adolygiad o'r trefniadau gweithredu cyfredol wedi dangos y byddai'n fuddiol ystyried gwneud newidiadau pellach yn y strwythurau rheoli a chyflawni, er mwyn gwella ymhellach y modd y cyflenwir gwasanaethau, a sicrhau Gwerth am Arian.

Yn gyffredinol, mae'r refeniw yn dangos gostyngiad o £3.666m o ganlyniad i ail-flaenoriaethu rhaglen gynnal y rhwydwaith ac arbedion a ddisgwylir

Mae'r gyllideb cyfalaf o £62.550m yn cyllido gwaith cynnal cyfalaf and gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd presennol.

Mae'r gostyngiad cyfalaf o £8.9m i'w briodoli yn bennaf i'r newidiadau allweddol canlynol:

1. Trosglwyddo £30m allan i Gynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd ar gyfer y Gweithredu yn Nhwnelau Bryn-glas ;
2. Cyfalaf ychwanegol o £7m sy'n adlewyrchu symudiad net rhwng blynyddoedd ariannol ar gyfer newidiadau ym mhroffiliau dyraniadau cyfalaf o'r cronfeydd canolog ar gyfer gweithiau penodol; a
3. Symudiad o £14.1m rhwng blynyddoedd ariannol, ynglŷn â chyflawni'r rhaglen gwaith cynnal cyfalaf.

6.2 Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Llwybrau Domestig) – Nad yw'n Arian

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Llwybrau Domestig)	Refeniw	108,691	0	108,691
	CYFANSWM	108,691	0	108,691

Mae'r gyllideb hon yn darparu ar gyfer dibrisiant y rhwydwaith cefnffyrdd.

6.3 Gwasanaethau Rheilffordd ac Awyr

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Gwasanaethau Rheilffordd ac Awyr	Refeniw	163,968	21,711	185,679
	CYFANSWM	163,968	21,711	185,679

Y gyllideb hon sy'n cynnal Masnachfaint Cymru a'r Gororau a Gwasanaeth Awyr Mewnol Cymru. Mae fforddiadwyedd Masnachfaint Cymru a'r Gororau yn bryder penodol ar gyfer y tymor hir. Mae'r cynnydd yn y gyllideb refeniw o £21.711m i'w briodoli yn bennaf i ail-ddyrannu cyllid yn benodol ar gyfer pwysau chwyddiannol y fasnachfaint; taliadau bonws; a darpariaeth ar gyfer gwasanaethau ychwanegol ar lein y Cambrian; lein Calon Cymru a gwasanaethau Abergwaun. Mae'r gyllideb wedi ei hail-flaenoriaethu ar ôl ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r gwelliant yn y gwasanaethau'n bwysig er mwyn hybu'r economïau lleol a darparu mynediad at wasanaethau a

cyflogaeth. Er mwyn cynorthwyo cymunedau gwledig mae gwasanaethau o'r fath yn hanfodol.

6.4 Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Cynlluniau	Cyfalaf	151,766	30,819	182,585
Ffyrdd a Rheilffyrdd	CYFANSWM	151,766	30,819	182,585

Mae'r gyllideb yn cyllido gwelliannau cyfalaf i ffyrdd a rheilffyrdd. Yn 2015/16 rydym yn dyrannu £150.7m i gyflawni blaenoriaethau seilwaith ffyrdd a £31.9m i brosiectau buddsoddi mewn rheilffyrdd. Mae'r cynnydd o £30.8m yn cynnwys dyraniadau cyfalaf ychwanegol o'r cronfeydd canolog o £30m i gynorthwyo Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae, £0.8m ychwanegol sy'n adlewyrchu symudiad net rhwng blynyddoedd ariannol ym mhroffiliau dyraniadau cyfalaf ychwanegol o'r cronfeydd canolog ar gyfer gweithiau penodol, ac ail-flaenoriaethu cynlluniau cyfalaf fel y cyflawnir y rhaglenni. Mae'r symudiad net hefyd yn adlewyrchu trosglwyddiad i mewn o £30m, o Weithrediadau Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd ynglŷn â'r Gweithredu ar Dwnelau Bryn-glas, sydd wedi ei wrthbwyso gan ail aliniad o gyllid cyfalaf i gynorthwyo'r cynllun tocynnau consesiynol.

6.5 Gwella a Chynnal Seilwaith Ffyrdd Lleol

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Cyllid Cyfalaf	Cyfalaf	13,667	-	13,667
Cyffredinol – Ffyrdd	CYFANSWM	13,667	-	13,667

Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r gydran cyfalaf trafndiaeth yn y setliad llywodraeth leol. Ni cheir defnyddio'r cyllid hwn at unrhyw ddiben arall.

6.6 Teithio Cynaliadwy

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Teithio Cynaliadwy	Refeniw	77,304	(25,095)	52,209
	Cyfalaf	52,566	19,881	72,447
	CYFANSWM	129,870	(5,214)	124,656

Mae'r gyllideb hon yn cynnal buddsoddi mewn trafndiaeth integredig, teithio llesol, tocynnau consesiynol, cardiau clyfar a bysiau, rheilffyrdd ffyrdd lleol.

Tocynnau Consesiynol: Yn dilyn negodi manwl, cyrhaeddwyd cytundeb tair-blynedd newydd gyda'r diwydiant bysiau ar docynnau consesiynol. Mae'r gyllideb yn dangos cyllid o £60.5m yn 2015/16 ar gyfer y cynllun tocynnau consesiynol. Ychwanegir atodiad a ffi gweinyddu at y swm hwn gan yr awdurdodau lleol

Ar 1 Ebrill 2014, cyflwynwyd Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau (GCGB) newydd (a oedd yn cymryd lle'r Grant Gwasanaethau Trafndiaeth Rhanbarthol (GGTRh) blaenorol). Roedd yr GCGB yn parhau'r lefel gyllido o £25m a roddid o dan GGTRh a'r ymrwymiad i ddyrannu canran benodedig ar gyfer trafndiaeth gymunedol. Darperir y grant hwn i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i roi cymhorthdal i wasanaethau bysiau a thrafndiaeth gymunedol sy'n angenrheidiol am resymau cymdeithasol. Mae pob awdurdod unigol yn penderfynu pa wasanaethau i'w cynorthwyo ar sail ei asesiad o'r amgylchiadau a'r blaenoriaethau lleol, gan ddefnyddio'r grant hwn ar y cyd â'i adnodau ei hunan.

Mae'r gyllideb refeniw yn dangos gostyngiad cyffredinol o £25.095m. Mae'r gofynion gyllido ar gyfer cyflawni'r cynllun tocynnau consesiynol gan y

gweithredwyr bysiau yn 2015/16 yn gwneud yn ofynnol ail-gategoreiddio cyfran o'r refeniw fel cyfalaf, er mwy adlewyrchu'r gwariant cyfalaf gan y gweithredwyr, er enghraifft caffael cerbydau ychwanegol. Canlyniad hyn yw gostyngiad refeniw o £29m. Gwrthbwysir hynny gan ail ddyraniad cyllid net o £4m ar gyfer cymorth GCGB i wasanaethau bysiau eraill.

Mae'r cynnydd yn y gyllideb cyfalaf o £19.881m i'w briodoli i ofynion cyfalaf uwch o £29m ar gyfer tocynnau consesiynol, a wrthbwysir gan ostyngiad rhwng blynyddoedd ariannol o £10m ar gyfer dyraniadau cyfalaf o gronfeydd canolog ac ar gyfer ail-flaenoriaethu'r cynlluniau cyfalaf fel y cwblheir rhaglenni.

6.7 Tocynnau Consesiynol Ieuenctid

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Tocynnau Consesiynol Ieuenctid	Refeniw	-	5,000	5,000
	CYFANSWM	-	5,000	5,000

Rydym yn dyrannu £5m yn 2015-16 ar gyfer cynllun teithio rhatach ar fysiau i bob ifanc 16 a 17 oed. Bydd y buddsoddiad hwn yn cael effaith positif ar bobl ifanc drwy'u galluogi i fanteisio ar gyfleoedd gwaith, addysg, hyfforddiant a phrentisiaethau; a bydd o fudd arbennig i bobl o gartref incwm-isel, ac yn helpu i drechu tlodi.

6.8 Gwella Diogelwch Ffyrdd

Gweithredu	Categori Gwariant	Cyllideb Atodol 2014/15 £'000	Newid £'000	Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000
Gwella	Refeniw	4,243	521	4,764

Diogelwch	Cyfalaf	6,900	-	6,900
Ffyrdd	CYFANSWM	11,143	521	11,664

Mae'r gyllideb yn cynnal gwelliannau cyfalaf peirianegol er mwyn diogelwch ffyrdd, ar y rhwydweithiau cefnffyrdd a ffyrdd lleol. Mae'r gyllideb hefyd yn cynorthwyo trefniadau ymgysylltu a chyllido gyda phartneriaid allanol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, sy'n defnyddio'r strwythurau llywodraethu diogelwch ffyrdd i weithredu'r Cynllun Cyflawni Diogelwch Ffyrdd. Mae'r Cynllun yn nodi ein dull strategol o ymdrin â diogelwch ffyrdd o'r presennol tan 2020. Cynhwysir gofyniad ychwanegol o £0.521m i gyllido'r partneriaethau.

7.0 DEDDFWRIAETH

Y Bil Cynllunio

Mae'r Bil Cynllunio yn gweithredu llawer o'r argymhellion a bennir yn yr adroddiad ar y system gynllunio gan y Grŵp Cyngori Annibynnol. Bu EGT yn ymwneud â datblygu'r Bil Cynllunio, ac y mae'n parhau i ymgysylltu wrth i'r Bil ddilyn ei hynt drwy'i gyfnodau nesaf.

Mae'n debygol hefyd y byddwn yn ymwneud â'r ail Fil cynllunio, sef y Bil Cydgrynhoi Cynllunio. Er y bydd hyn yn cael effaith yn nhermau amser staff, yn enwedig amser y swyddog arweiniol EGaTh ac amser swyddogion EGaTh eraill a elwir i mewn i gynorthwyo o bryd i'w gilydd, ni ragwelir unrhyw effeithiau cyllidebol uniongyrchol.

Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

